ADDASIADAU

Gwasanaeth i gynorthwyo pob tenant sy'n cael anawsterau o ran defnyddio'r cyfleusterau yn eu tŷ neu yn eu cartref oherwydd salwch neu anabledd.

Addasiadau

gwasanaeth a ddarparwyd gan

Tai Teulu

CYFARWYDDYD I'N CYNLLUN…

Gall Cymdeithas Tai Teulu (Cymru) Cyf ymgeisio am arian gan Gynulliad Cymru i gael Grant Addasiadau Ffisegol (PAG) i gynnal addasiadau i'n heiddo i alluogi tenantiaid i fyw yn annibynnol yn eu cartrefi.

PWY SY'N GYMWYS ?

Mae'r cynllun ar gael i bob tenant Tai Teulu ac i unrhyw breswylwyr eraill sy'n byw yn yr un eiddo, ac sy'n cael anawsterau o ran defnyddio'r cyfleusterau yn eu tŷ neu yn eu cartref oherwydd salwch neu anabledd. Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran oedran, ac nid yw grantiau yn destun prawf modd.

BETH YW'R NODAU ?

I gynorthwyo tenantiaid i:

- Fyw yn annibynnol yn eu cartref
- Gynnal tenantiaeth yn llwyddiannus

PWY I GYSYLLTU ?

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni

Ffôn: 01792 460192

www.fha-wales.com

e-bost info@fha-wales.com

Cymdeithas Tai Teulu (Cymru) Cyf

43 Walter Road, Abertawe SA1 5PN

Y WEITHDREFN

Cam 1 Dylech chi gysylltu â'ch adran gwasanaethau cymdeithasol lleol i drefnu i Therapydd Galwedigaethol i ddod i ymweld â'ch cartref i asesu eich anghenion.

Cam 2 Fe fydd y Therapydd Galwedigaethol yn cynnal asesiad gweithredol o'ch anghenion, ac fe fydd ef/hi yn anfon eu hargymhellion ymlaen atom ni (yn seiliedig ar eich anghenion).

Cam 3 Fe fyddwn ni'n ymgymryd â gwiriad cymhwyster, ac yn trefnu ymweliad i'ch cartref er mwyn cymryd mesuriadau ac ati. Yna, fe fyddwn ni'n darparu manyleb ar gyfer tendro i gontractwyr.

Cam 4 Unwaith y bydd tendrau wedi cael eu derbyn, fe fyddwn ni'n cysylltu â Chynulliad Cymru i gael cymeradwyaeth ar bapur ar gyfer y gwaith. Pan fyddwn ni'n derbyn hyn, fe fydd y contractwr yn gallu cychwyn ar y gwaith. Gellir datblygu rhai ceisiadau yn fwy cyflym na rhai eraill, a gellir cyflawni'r gwaith cyn cael cymeradwyaeth gan Gynulliad Cymru. Fe fydd hyn yn dibynnu ar y math o waith fydd yn cael ei gynnal.

Cam 5 Fe fyddwn ni'n archwilio'r gwaith a wnaethpwyd ar ôl ei orffen, a'n cau ffeil yr achos.

PA ADDASIADAU SY'N GALLU CAEL EU CYNNAL?

Dyma rai esiamplau o addasiadau:

- *Rheiliau cydio*
- *Mynediad lefel isel/Cawodydd lefel isel*
- *Rampiau*
- *Hosiadau*
- *Lifftiau grisiau*
- *Toiledau closomat*

Nodwch os gwelwch yn dda:

a Pe gwrthodwyd neu tynnwyd cymeradwyaeth yn ôl, ni fyddwn ni'n gallu sicrhau i ddarparu'r addasiadau a ofynnwyd amdanynt.

b Weithiau, efallai na fydd yn bosib cynnal yr addasiadau i"ch cartref cyfredol. Os fydd hyn yn digwydd, yna, fe fyddwn ni'n eich cynorthwyo chi i ddod o hyd i lety arall, a allai gael ei addasu neu sydd eisoes wedi cael ei addasu i weddu eich anghenion.